c 167 f 1(6)-

Coffadwriaeth Hiraethlon

AM

DAFYDD, IFAN,

AC

ELIZ. SION,

PLANT

Sion a Mary Dafydd,

O Bant-y-rhedynen,

Ym Mlhwyf Llandyſſyl,

Ag a ymadawſant a'r Byd mewn yſbaid chwe' Diwrnod, ym Mis Hydref, yn y Flwyddyn, 1793.

Ifan Hydref 18ed, yn 18 Oed,—Dafydd Hydref 24ain, yn 24 Oed,—Elizabeth Hydref 24ain, 21 Oed.

Ar y Dôn a elwir, *Gwel yr Adeiliad.*

Gan IFAN LEWIS.

Byddwch chwithau barod.

---

aerfyrddin, argraphwyd gan I. Roſs, 1794.

Coffadwriaeth Hiraethlon, &c.

1 O Arglwydd Dduw y Lluoedd,
Greawdwr Dae'r a Nefoedd,
Ti roddaiſt inni
Y Bywyd hwn o Brofiad:
Doethineb yr Uchel-dad
Sy'n llywodraethu
Y Byd, trafferthus hwn o hyd,
Yn ol ei 'Wllys
O'i ben Frenhinlys:
Ior gogoneddus,
Mae'n weddus i ni gyd,
Ymoſtwng i'th Lywodraeth
Dda odiaeth ar bob Pryd;
Un Praw, i gwrddyd Dyn ni ddaw,
Ond yr hyn fyddi,
O Dduw'n ei drefnu,
Er rhyw Ddaioni:
Mawrhydi uwch ein Llaw
Sy'n llywodraethu'r Ddaear
A'r Nefoedd hawddgar draw.

2 Yn awr ym Mhant-rhedynen,
Digwyddodd y fath ddamwain,
A wna in' ſynnu,
Gwel'd Angau yn cael Cennad,
I rwygo Teulu difrad
Oedd yn cyd-dynnu:
I'r Tŷ, daeth Angau creulon cry,
Och Oriau chwerwon!
Fe droes yn feirwon,
Do, ddau o'r Meibion,

BRITISH MUSEUM 30 MAY 63

A'u Chwaer gariadlon gu;
Maent 'nawr yn Garcharorion,
Ne's cano'r Udgorn fry.
Gwnaeth hyn, i'n golli Dagrau'n llyn,
Gwel'd Ie'nctyd hyfryd,
Ym Mlodau eu Bywyd,
Yn cael eu ſymmud,
O'r Byd i'r Bedd yn ſyn;
Mor ſyr a chyfnewidiol
Yw 'Stad ac Einioes Dyn!

3 Rhifedi bach o Ddyddiau
Fu rhwng y prudd Angladdau,
A chyfyng Oriau,
Dydd Sadwrn aeth y cynta',
Hyd Llwybyr na's dychwela,
I'w dirion Artre;
'Mhen tri, o Ddyddiau dan eu rhi',
Cai 'i Frawd anwyla',
A'i Chwaer gar'eidda',
Eu dwyn yn ara',
I'r Llan ar Warrau'r Llu,
I'w rhoi yr un Diwrnod,
Yng ngwaelod Dae'ren ddu:
Drwm Ddydd! 'doedd Bron nad oedd yn brudd;
Perth'naſau mwynion,
Eu hoff Gyfeillion,
A'u glan Gym'dogion,
A Dagrau 'n golchi 'u Grudd,
'Roent Arwydd o'r taer Hiraeth,
Trwy'r holl Gym'dogaeth ſydd.

4 Blant da gan ofni'r Arglwydd,
Gwaſanaethent Dduw y Llywydd,
Mewn ufudd Yrfa,

Gan

Gan barchu eu Rhieni,
A dilyn Siampal Ieſu,
Y gwir Feſſia:
'N ddiludd, gwnaent Broffes dda o'u Ffydd,
Fod yn Ddiſgyblion,
I'r Ieſu tirion,
Fu dan yr Hoelion;
Eu gwych Amcanion cu,
Oedd bod yn Etifeddion,
O'r Addewidion fry:
Yn groes, i Arferiadau'r Oes
Lygredig yma
Hwy 'mroent yn benna
Am wir Orphwysfa,
Trwy dduwiol fanol Foes,
Lle nad oes Poen na Chlefyd
Na gofid Angau Loes.

5 Plant duwiol eu Hymddygiad,
Plant iſel yn eu rhodiad,
Llawn Cariad brawdol
Yn caru'n eu Calonnau,
Sancteiddrwydd, Arwydd oreu,
A Geiriau graſol;
'N caſau, Celwyddau a Geiriau gau,
Gan brudd ymwrthod
A phob rwyw Bechod,
Sy'n peri Syndod,
A Thrallod gormod Gwae,
Gan ddewis yn eu Bywyd,
Y Gwynfyd ſy'n parhau:
Aent tan, Bregethau ymhob man,
Gan ddyfal gofio
A phrudd gymmuno,
A dwys weddio

Ar

Ar Ddûw fod ar eu Rhan,
A dwyn i'r Ne'n ddihangol,
I'w Gôl eu Henaid gwan.

6 Pan aent o'r Tŷ daearol
I'r ehang Fyd yſprydol,
Drag'wyddol Drigle,
Danfonai Duw angylion
I'w cadw rhag Peryglon,
Hyd ben eu Siwrnai;
A'u dwyn, lle nad oes Poen na chwyn,
I Fynydd Seion
I blith Angylion
Gael Gynau gwynion
Gan Iefu tirion mwyn;
Eſe yw'r Bugail goreu
Ei Ofal am ei Wyn:
Cant fyw, dros fyth yn Ninas Duw,
Cant Oes ni dderfydd
Ant byth ar Gynnydd
Mewn pur Lawenydd:
Pwy ddwed mor ddedwydd yw?
Dymunwn fil o Weithiau
Mod inneu yno'n byw.

7 Doethineb ddofn anfeidrol
A chariad tyner tadol
Yn fwyn a fynnai
Eu dwyn i'w Hetifeddiaeth,
Cyn myn'd i orthrwm Drafferth,
Y Byd a'u Bethau:
Maent 'nawr, a'u Gwiſgoedd fel y Wawr,
Mewn llon Gymmanfa,
'N ſeinio Hoſanna
A Haleluia

Ar I'r

I'r un Jehofa mawr,
A'r Oen yr hwn a laddwyd,
Mewn Gwyn-fyd, bob yr Awr.
Byth mwy, ni's daw i gwrdd a nhwy,
Na Phoen corphorol,
Na Gofid bydol,
Na Drwg yſprydol,
Nac un gelynol Glwy',
A ninneu fyth mewn Pryder,
A Blinder fwy na mwy.

8 Wel dyma Rybudd ddigon,
I Feibion a Gwyryfon,
Bod dyrnod Angau -
'N troi Dynion o bob Oedran;
I gymmyſg Pridd a Graian,
Heb bryſio Graddau:
O ffown, am Ddinas noddfa 'mrown,
Mae'r Dydd yn tynnu,
Gan ddirwyn fynu;
A'r Nos yn neſu,
O Ffordd trueni trown,
Rhag gorfod wylo'n Hiledd,
Mewn trwm Ddihaledd llawn:
Gwell yw, i ni ſy'n awr yn byw,
Lafurio'n ddiwid,
Am Fara'r Bywyd,
Tra caffom Ennyd,
'Dyw'r Byd ond twyll a lliw,
Gwyn-fyd y ſawl ſydd addas
Gael Rhan yn Ninas Duw.

9 Chwy-chwi Rieni tirion,
Fyth fyth ſy'n drwm eich Calon,
Yn gollwng Dagrau,

Yn Ffrydiau mawr yn gyſſon
Yn dyner am eich Dynion,
A'u mwynion Ddoniau,
Drwy'ch ho's, Duw'ch cadwo Ddydd a Nos,
Rhag tra gofidio,
A gwan obeithio,
A gormod wylo,
A myned ronyn dros
Reolau mwyn Amynedd,
Ry' Eli weddai i'r Loes:
Duw rydd, gyfarfod hardd ryw Ddydd,
Cewch wel'd eich mwynlon
Hoff Blant cariadlon,
Ar wedd Angylion,
Heb ael na Bron yn brudd,
Ac uno'n yr un Ganiad,
'Madawiad mwy ni bydd.

Y Nefoedd a'ch bendithio
A gwir Ddiddanwch etto,
Duw fo'n rhoddi
Cyſſyron ei Wynebpryd
I'ch cynnal dan eich Gofid
Rhag gwan galonni,
A'ch Plant, trwy fendith Duw y Sanr,
A fyddo beunydd
Ar iraidd gynnydd
Mewn Gras a Chrefydd:
Rhowch brudd Rybyddion gant,
Ar iddynt yn oeſtadol,
Ochelyd dynol Chwant,
I'r Nen, oreurog geurog wen,
Dyrchafwn Weddi,
Trwy Aberth Ieſu,
Ar Dduw i ddenu

Y

Ein

Ein Serch ty fewn i'r Llen,
A rhoddi i'n Hawl, mewn eilfyd,
I Wynfyd mwyn. AMEN.

I'R GOFYD.

1 Mewn gafael, yr y'm a'n gofyd——beunydd,
Yn boenus trwy'n bywyd:
Rhown Amen am ben i'm byd
O Gwynfan, a chael gwynfyd.

2 Is ſer, y trawſter a'r triſtwch,——galar
Ac wylo, fyth welwch;
Ni ddaw i ddyn, ddiddanwch,
Dan y lloer, nes myn'd yn llwch.

3 Yn y byd, gofyd a gefais,——dolur
Hir dulym oddefais;
Ar fy Ion, yr erfyniais
Wrandaw 'nghwyn, f'oernad a nghais.

4 " Tyred Ion, gwared un gwirion,——egwan
" A dwg o'i helbulon;
" Drwy wellhad o'i drallodion,
" Gwna ddyn lleſg yn hoyw-ddyn llon."

5 Duw ſydd arweinydd i'r union,——ceidwad
Mwyn cadarn i'r cyſion:
Rhag pob dig a pherig' ffôn'
Yn nydd taro at Dduw tirion.

6 Dad f'enaid! dwed di fwynair,——a diddig
Y dioddef oganair,
Nid yw'n anodd dwyn anair
Dan gyſuron dwyſion d' air.

7 Gwagedd a gwaeledd golud,——a weli
Pan elot i ſymmud,
O'th fwyndrem gaer a'th faindrud,
I orwedd i fedd yn fud.

8 Yn ddiau 'n angau, ddyn angall,——e fydd
I'th foddion roi'r cyrball:
Rho'th fryd i gyd od wyd gall,
A'r baderau a'r byd arall.—D. ap Ieuan Rhudderch